

Cofnodion Cyfarfod **Cyngor Cymuned Penbryn** a gynhaliwyd nos Fawrth, Medi 3ydd 2024 yn Neuad2024 at Penbryn Memorial Hall.

Yn bresennol/*Present*

Cynghorwyr/*Councillors* – Caerwyn Owen, Gwyn James, Gareth Evans, Teifi Davies, Walwyn Jones, Barri Davies, William Anwyl.

1 Ymddiheuriadau/Apologies

Cynghorwyr/*Councillors* – Jonathan Rees, Delfryn Owens, Melva Phillips, Elen Mathias.

2 Materion Personol/Personal Matters

Dim Byd Perthnasol/*Nothing Relevant*

3 Cofnodion Cyfarfod Misol/Monthly Meeting Minutes – 2/7/24

Cynigiwyd eu bod yn gywir gan Walwyn a'i eilio gan Caerwyn.

Proposed to be correct by Walwyn and seconded by Caerwyn.

4 Materion yn Codi/Matters Arising

- i) Cysylltu â Heddlu Dyfed Powys/*Correspondence with Dyfed Powys Police*
Gohebodd y Clerc gyda Swyddfa Comisiynydd Heddlu Dyfed Powys er mwyn ceisio cael rhagor o wybodaeth am nifer y damweiniau a mân ddigwyddiadau sydd wedi digwydd rhwng Tanygroes a fferm Temple Bar ar gyrion Sarnau yn ystod y blynyddoedd diweddar. Nid oedd ganddynt y wybodaeth berthnasol ond awgrymwyd ffyrdd eraill o gysylltu â'r llu. Bydd y Clerc yn ceisio gohebu trwy'r ffyrdd hyn er mwyn cael y manylion perthnasol.

The Clerk corresponded with Dyfed Powys Police's Commissioner's Office in order to attain information regarding the number of accidents and incidents between Tanygroes and Temple Bar farm during recent years. They didn't possess the relevant information but they did suggest alternative means of contacting the Force. The Clerk will attempt to obtain the relevant information by these means.

- ii) Meinciau Tresaith/*Tresaith Benches*
Mynegwyd diolch i bawb a fu'n gyfrifol am drefnu bod y ddwy fainc wedi cyrraedd Tresaith yn ddiogel a'u gosod yn eu priod le. Yr oedd yn enghraifft berffaith o gyd-dynnu er mwyn cael y maen i'r wal.

The Clerk expressed the Council's gratitude for all the efforts to ensure that the two benches for Tresaith's seashore arrived safely and have already been installed in their place. A perfect example of co-operation.

5 Archwilio Cymru a Chyfrifon y Cyngor/Audit Wales and Council Accounts

- i) Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth Archwilio Cymru ym mis Gorffennaf yn ein hysbysu nad oeddent wedi derbyn cyfrifon oddi wrth y Cyngor hwn er pedair blynedd. Y blynyddoedd coll dan sylw oedd 2019/20, 2020/21, 2021/22, 2022-23 a 2023/24. Mae'r cyfnod hwn yn cwmpasu 4 blynedd olaf y cyn- Glerc a blwyddyn gyntaf y Clerc presennol. Yn dilyn hyn bu cryn dipyn o ohebu rhwng y Cyngor hwn â'r cyn- Glerc ac Archwilio Cymru. Canlyniad hyn oll yw fod cyfrifon y 4 blynedd cyntaf uchod wedi'u cyflwyno i swyddfa DMB Davies a'u cofrestru.

Yn ddibynol ar ba bryd yn union y'u derbyniwn yn ôl , gallwn un ai eu cymeradwyo yn ystod cyfarfod llawn o'r Cyngor, neu alw cyfarfod arbennig ar ryw adeg arall. Cam arall fydd parhau i ohebu â Deryck Evans o Archwilio Cymru er mwyn eu hysbysu o'r datblygiadau diweddaraf. Ychwanegodd William ei fod wedi gwneud ymholiadau â HSBC ynghylch cael mantolenni ôl-syllol ar gyfer y cyfrif blaenorol, a bod y banc yn fwy na pharod i ddarparu'r mantolenni perthnasol.

Correspondence was received from Audit Wales in July informing us that they hadn't received any accounts from this Council for over 4 years. The relevant years were 2019/20, 2020/21, 2021/22, 2022/23 and 2023/24. This period includes the previous Clerk's last 4 years and the present Clerk's first year. In its wake correspondence followed between the Council and Audit Wales as well as the previous Clerk. This resulted in the accounts for the first 4 years above to be submitted to the office of DMB Davies and formally logged.

Depending upon when we receive them, we can either approve them during a council meeting, or convene a special meeting some other time. Another step would be to continue to correspond with Deryck Evans at Audit Wales in order to inform him of developments. William added that he had made enquiries at HSBC regarding obtaining retrospective statements for the previous bank account. The bank would be willing to provide them.

6 Dyfodol Tai Bach Tresaith/Future Toilet Provision at Tresaith

- i) Yn dilyn cyfarfod gyda Chyngor Sir Ceredigion ddiwedd mis Gorffennaf, er mwyn trafod dyfodol toiledau cyhoeddus yn y sir, cawsom ddogfen swyddogol yn amlinellu dewisiadau gwahanol posibl tua'r dyfodol. Y dewis cyntaf oedd cymryd gofal amdanynt ar brydles am gyfnod penodedig oddi wrth y Cyngor Sir. Yr ail ddewis oedd derbyn y cyfrifoldeb ar brydles eto ond cydweithio â'r Cyngor Sir trwy gytundeb lefel gwasanaeth (CLG), ble byddem i bob pwrpas yn talu'r Cyngor Sir i'w cynnal ar ein rhan. Ac yn olaf, y trydydd dewis oedd trosglwyddo'r holl asedau i'r Cyngor Cymuned. Nodwyd hefyd y byddai methu â dewis un ohonynt yn sicr o beryglu eu dyfodol.

Fodd bynnag, y teimlad ymysg yr aelodau oedd nad oeddent wedi cael digon o amser i drafod y mater pwysig hwn, na derbyn digon o wybodaeth ynghylch goblygiadau derbyn y fath gyfrifoldeb. Wrth drafod y gost o gynnal y gwasanaeth, daeth yn amlwg bod y braslun o'r costau a roddwyd yn gwbl annigonol i seilio unrhyw benderfyniad arno. Yr oedd cymaint o fylchau yn y fantolen hyd nes iddo fod yn gwbl amhosibl i osod amcangyfrif hyd yn oed.

Penderfyniad unfrydol yr aelodau oedd gohirio gwneud penderfyniad heno a chysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn am fantolen a dadansoddiad manylach o'r costau tybiedig. Bydd gofyn penderfynu erbyn Hydref 6ed. Cytunodd y Clerc i ohebu â'r Cyngor Sir. Pwyntiau eraill a godwyd yn y drafodaeth oedd a fyddai modd cynnwys busnesau lleol y pentref wrth gyllido'r toiledau, ac a fyddai modd gosod peiriannau talu wrth ddrysau'r tai bach?

Following the meeting with Ceredigion officials in July, in order to discuss the future toilet provision within the county, we received a document outlining the various options. Firstly, the option involved leasing the provision from Ceredigion Council for a term to be agreed with Estates. The second option would also entail a lease, but also with a Service Level Agreement (SLA), where we would be to all purposes paying Ceredigion to maintain them on our behalf. Thirdly, this option would entail the

transfer of all assets to the Community Council. It was also noted that a failure to select any option would endanger any future provision.

However, the feeling among the membership was that they hadn't received sufficient time to discuss this matter, nor the necessary detailed information regarding the implications of accepting such an undertaking. As they discussed the cost, it became evident that the estimated costs provided were wholly insufficient on which you could make a final decision. There were so many deficiencies in the estimated costs provided it would have been almost impossible to even estimate the total.

Unanimously, the members decided to delay any decision pending further and more detailed financial estimated costs for maintaining the provision from Ceredigion Council. The final date for a decision is October 6th. The Clerk agreed to correspond with Ceredigion Council. Other matters raised were the possibility of involving the local business community as an integral part of funding the provision, and the possibility of inserting slot machines at the amenities?

7 Cyllid/Finance

- i) Balans Blaenorol/Previous Balance £8808.62

Taliadau a gymeradwyd/Approved Payments

Cyflog Clerc/Clerk Salary £780.00

Meinciau Tresaith/Tresaith Benches £717.60

Cludiant y Meinciau/Delivery of benches £84.00

Derbyn ail gyfran y Praesept/ Second Precept Payment £4166.67

Balans Newydd/New Balance £11393.69.

- ii) Cymeradwyo ad-daliad Delfryn/Approval of Delfryn's Reimbursement
Cymeradwyd yr angen am ad-dalu Delfryn wedi iddo dalu anfoneb gwerth £90 Bois y Mowo ar ran y Cyngor.
It was agreed to reimburse Delfryn the sum of £90 for paying Bois y Mowo's invoice on behalf of the Council.

- iii) Goblygiadau ariannol y gost o archwilio cyfrifon/ Financial implications of auditing costs
Cododd y Clerc y posibilrwydd y byddai goblygiadau ariannol i gyllido archwilio gwerth 5 mlynedd o gyfrifon y Cyngor o fewn yr un flwyddyn ariannol. Hyd nes y byddwn yn gwybod union gost y gwaith, bydd rhaid bod yn wylidwrus.
The Clerk raised the possibility that there would be financial implications to financing the auditing of 5 years of Council accounts within the same financial year. Until we know the true cost, we need to be vigilant.

8 Cynllunio/Planning

- i) A240604 Talar, Sarnau

DIM GWRTHWYNEBIAD/NO OBJECTIONS

9 Gohebiaeth/Correspondence

DIM/NONE

10 Unrhyw Fater Arall/Any other Business

DIM BYD/NOTHING

11 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, Hydref 1af 2024 am 7.30 y.h.

The next meeting will be held on Tuesday, October 1st 2024 at 7.30 p.m.